O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2086 (Cy.224)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 2 (Tŷ Mawr) a Chyffordd 6 (Tyrpeg y Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *5 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig mewn darnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Slipffyrdd rhwng Cyffordd 2 (Tŷ Mawr) a Chyffordd 6 (Tyrpeg y Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 5 Medi 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A55

rhwng Tŷ Mawr, Caergybi a Thyrpeg y Nant ar Ynys Môn, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darnau hynny, ac eithrio cerbyd esempt.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno yn weithredol.

**5.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Awst 2011

***GARETH MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

## YR ATODLEN

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 2 (Tŷ Mawr).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 2 (Tŷ Mawr).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 3 (Caergeiliog).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 3 (Caergeiliog).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 4 (Dalar Hir).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 4 (Dalar Hir).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 5 (Treban).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 5 (Treban).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 6 (Tyrpeg y Nant).

Hydoedd cyfan y slipffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 6 (Tyrpeg y Nant).